Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC

Casgliadau ac argymhellion

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddCCLIL

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC

Casgliadau ac argymhellion

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor

Christine Chapman (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Cwm Cynon

Alun Davies
Llafur Cymru
Blaenau Gwent

Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe

Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

Gwenda Thomas
Llafur Cymru
Castell-nedd

Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru

Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy

Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymruv

Gwyn Price
Llafur Cymru
Islwyn

Lindsay Whittle
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

Roedd yr Aelod a Ganlyn yn bresennol fel dirprwy aelod oír Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn

John Griffiths
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

Casgliadau ac argymhellion

Y Siarter Brenhinol yw'r sail gyfansoddiadol ar gyfer y BBC. Mae'r Siarter presennol yn nodi dibenion cyhoeddus y BBC, yn gwarantu ei annibyniaeth, ac yn amlinellu dyletswyddau Ymddiriedolaeth y BBC a Gweithrediaeth y BBC. Mae'r Siarter presennol yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2016.

Dibenion cyhoeddus a rhychwant y BBC

1. Mae gan y BBC safle sy'n unigryw yng Nghymru o ran ei bwysigrwydd. Mae cynulleidfaoedd Cymru yn defnyddio cyfran fwy o wasanaethau'r BBC na'r cynulleidfaoedd yng nghenhedloedd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Hefyd, mae diffyg lluosogrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru yn golygu bod y cyhoedd yng Nghymru yn ddibynnol ar y BBC i raddau mwy nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran newyddion a materion cyfoes.

2. O gofio'r sefyllfa unigryw hon, mae'n ddyletswydd ar y BBC i sicrhau bod ei allbwn yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd a diwylliant Cymru. Yn hyn o beth rydym yn credu bod y BBC wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau

3. Mae'r dirywiad sylweddol o ran buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni Saesneg dros y deng mlynedd diwethaf wedi arwain at lai o oriau o raglenni sy'n benodol i Gymru ac amserlen sydd wedi methu cynnig disgrifiad ac archwiliad digonol o fywydau a phrofiadau cymunedau Cymru, nac o'r newid yn y tirlun gwleidyddol yn sgil datganoli. Ar ben hynny, mae'r dirywiad hwn yn y buddsoddiadau wedi bod yn fwy difrifol yng Nghymru na chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig. Er bod Gweithrediaeth y BBC yn cydnabod y diffygion hyn yn gyhoeddus ers tro byd, nid yw'n ymddangos ei bod wedi gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â hwy.

4. Rydym o'r farn y dylai diben cyhoeddus y BBC o "gynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau" gael ei gryfhau. Rydym yn cefnogi'r awgrymiadau a wnaed gan Ymddiriedolaeth y BBC y dylai'r dibenion cyhoeddus gael eu diwygio i fynegi'n gliriach y ddyletswydd i "adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pawb yn y Deyrnas Unedig" yng ngwasanaethau'r BBC, gan sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sy'n ateb anghenion cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Rydym yn cytuno y bydd hyn yn sbardun i greu mecanweithiau ar gyfer mesur cynrychiolaeth yn well a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif yn well.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell y dylid cryfhau'r datganiad ynglŷn â dibenion cyhoeddus y BBC i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu anghenion y Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau.

Rôl Llywodraeth Cymru

5. Er nad ydym yn anghytuno â galwad Llywodraeth Cymru am adolygiad annibynnol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac y dylai adolygiad o'r fath hoelio sylw ar ddibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru, rydym yn credu y dylai'r alwad hon fod wedi cael ei gwneud yn gynt. O gofio bod y Siarter yn dod i ben ar ddiwedd 2016, mae'n ymddangos bod adolygiad o'r fath yn annhebygol ar hyn o bryd.

6. Yn 2012, gwnaethom sylwadau ar dystiolaeth a gawsom ynghylch capasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau. Rydym yn dal o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn mwy o gapasiti yn y maes hwn, yn enwedig o gofio pwysigrwydd diwylliannol ac economaidd sector y cyfryngau i Gymru.

7. Ar ben hynny, rydym yn nodi bod Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ddarlledu wedi argymell yn 2014 y dylid creu Cyngor Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus newydd i Gymru i oruchwylio'r cyfryngau yng Nghymru. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd ati ar fyrder i sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru. Dylai rôl y fforwm gynnwys, ymysg pethau eraill, adolygu, monitro a chloriannu darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru. Dylai ddefnyddio arbenigedd ar draws sectorau'r cyfryngau a'r byd academaidd.

Allbwn y BBC mewn perthynas â Chymru

8. Mae strwythur a diwylliant cyffredinol y BBC yn canolbwyntio'n ormodol ar Lundain ar draul cenhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg cynrychioli a phortreadu bywyd a diwylliant Cymru ar wasanaethau rhwydwaith y BBC, ac i'w gynulleidfaoedd yng Nghymru.

9. Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i gynyddu ei wariant ar gynyrchiadau rhwydwaith yn y cenhedloedd ac, i'r perwyl hwn, ei darged o wario 17 y cant o wariant y rhwydwaith y tu allan i Loegr. Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad hwn i ddatganoli mwy o gynhyrchu drama wedi bod yn bur llwyddiannus yn fasnachol hyd yn hyn. Serch hynny, mae'n siomedig nad yw'r rhaglenni hyn wedi gwneud llawer i gryfhau cynrychiolaeth neu bortread y genedl, er eu bod wedi'u cynhyrchu yng Nghymru.

10. Dylai'r BBC wneud mwy i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli i raddau ehangach ar draws y rhwydwaith. Ymhellach, dylai'r BBC wneud mwy i sicrhau bod rhaglenni a wneir yng Nghymru yn cynrychioli ac yn portreadu Cymru i gynulleidfa ehangach ar y rhwydwaith.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell y dylai'r BBC ddatblygu targedau penodol a mesuradwy ar gyfer portreadu Cymru yn ei raglenni rhwydwaith. Dylai gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd yn erbyn y targedau hyn (gweler argymhelliad 7).

11. Rhan annatod o gwestiwn portreadu yw comisiynu. Mae trefniadau'r BBC ynglŷ n â chomisiynu yn dal yn ganolog iawn, ac mae'r prif benderfyniadau'n dal i gael eu gwneud yn Llundain, er bod y gwaith cynhyrchu'n cael ei ddatganoli'n fwyfwy. Nodwn fod y BBC wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei brosesau comisiynu.

12. Rydym yn credu y dylai rhwydwaith y BBC fod â lle comisiynu yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu i gynyddu amrywiaeth wrth bortreadu Cymru ar raglenni'r BBC. Mae manteision y dull gweithredu hwn yn amlwg o'r enghreifftiau yn y Deyrnas Unedig lle mae gwaith comisiynu wedi'i adleoli o Lundain, yn enwedig canolfan y BBC yn Salford a'i manteision ar gyfer gogledd Lloegr. Ar ben manteision ymarferol datganoli, byddai hyn hefyd yn hybu newid diwylliant mewn sefydliad nad yw eto yn adlewyrchu datblygiadau cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig yn llawn yn ei strwythur.

13. I gyd-fynd â'r agwedd ddatganoledig hon, dylid datganoli mwy ar wariant y rhwydwaith i gomisiynwyr yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Byddai hynny'n cyfrannu at ystod ac amrywiaeth ehangach o ran yr allbwn.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell y dylai'r BBC roi trefniadau ar waith i ddatganoli ei waith comisiynu i sicrhau bod comisiynwyr rhwydwaith ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau wedi'u lleoli yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau hynny.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell y dylai'r BBC ddatganoli cyfran fwy o gyllid y rhwydwaith i gomisiynwyr yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau fel ffordd o gynyddu ystod ac amrywiaeth yr allbwn, yn lleol ac ar gyfer y rhwydwaith.

Cyllid y BBC

14. Dyfodol ansicr sydd o flaen cyllid BBC Cymru Wales. Er eu bod eisoes wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros gyfnod y Siarter bresennol, bydd rhaid hefyd iddyn nhw wneud eu cyfran o arbedion pellach, sy'n wynebu'r BBC yn ei grynswth ac sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r cytundeb ar ffi'r drwydded yn 2015. Rydym yn bryderus iawn ynghylch goblygiadau hyn ar gyfer amrywiaeth ac ansawdd allbwn y BBC yng Nghymru yn y dyfodol. Ar ben hynny, nid ydym yn credu bod ymrwymiad y BBC i'r cenhedloedd, sef sicrhau "eu bod yn cael eu torri yn llai na mannau eraill" yn dderbyniol, yn enwedig o gofio'r gostyngiadau anghymesur yn y cyllid sydd eisoes wedi'u gweld yng Nghymru.

15. Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru. Rydym yn credu bod y buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynnwys o safon i Gymru yn dal i gael ei wneud. Hefyd, rydym yn cytuno na ddylai unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn rhaglenni Saesneg ddod ar draul toriadau yng nghyllid S4C neu allbwn Cymraeg y BBC ei hun.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru.

16. Yn fwy cyffredinol, roeddem yn bryderus iawn ynglŷ n â'r modd y cyrhaeddwyd y setliad diweddaraf ar ffi'r drwydded. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod y broses ar gyfer penderfynu ar setliadau cyllid yn y dyfodol yn sicrhau annibyniaeth oddi wrth bwysau'r Llywodraeth; ei bod yn agored a thryloyw; a'i bod yn gyfle ar gyfer ymgynghori ystyrlon â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Llywodraethiant ac atebolrwydd

Llywodraethiant

17. Mae trefniadau llywodraethu presennol y BBC yn anfoddhaol ac yn gallu arwain at ddryswch ynghylch rolau Gweithrediaeth y BBC a'r Ymddiriedolaeth. Ymhellach, nid ydym yn teimlo eu bod wedi gwneud fawr ddim i sicrhau rhaglenni i Gymru sy'n adlewyrchu ei hunaniaethau cenedlaethol.

18. Rydym yn credu y dylai strwythur llywodraethu'r BBC gefnogi prosesau penderfynu mwy lleol a bod yn addas at y diben hwnnw. **Gan hynny, rydym o blaid y symudiad tuag at strwythur ffederal i'r BBC. O dan strwythur o'r fath, dylai mwy o rym a chyfrifoldeb gael eu trosglwyddo i BBC Cymru Wales, gan ei alluogi i gael mwy o reolaeth olygyddol dros waith comisiynu a phenderfynu.**

19. Wrth gwrs, ceir safbwyntiau eraill am y model llywodraethu newydd mwyaf priodol, gan gynnwys yr un sydd orau gan Weithrediaeth y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC, sef bwrdd unedol a rheoleiddiwr ar wahân, ac rydym yn nodi bod adolygiad Clementi o lywodraethiant a rheoleiddio'r BBC wedi dechrau.

20. **Pa fframwaith llywodraethu a rheoleiddio bynnag a bennir ar gyfer y BBC, mae'n hanfodol bod gan Gymru lais cryf ynddo**. I'r perwyl hwn, rydym yn credu y dylai penodiad cynrychiolydd/cynrychiolwyr Cymru yn y fframwaith hwnnw gael ei gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn ymgynghoriad â'r Cynulliad.

21. Rydym yn cefnogi cynnig Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ar gyfer trwyddedau gwasanaeth ar wahân ar gyfer pob un o'r cenhedloedd. Yng Nghymru, rydym yn credu y byddai hyn yn galluogi BBC Cymru Wales i flaenoriaethu'r cyllid yn well i fodloni ei rwymedigaethau a'i flaenoriaethau ei hun.

Atebolrwydd

22. Rydym yn credu y dylid sicrhau llinell atebolrwydd uniongyrchol o'r BBC i'r Cynulliad ar gyfer allbwn y BBC yng Nghymru. Dylai trefniadau o'r fath gynnwys gofyniad bod rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad am ei ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer Cymru, gan gynnwys datganiad o gyfrifon, ac ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad. Ni ddylai hyn gyfaddawdu ar annibyniaeth olygyddol y BBC.

23. Rydym yn croesawu datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn rhwymo'r BBC i ymddangos gerbron y Cynulliad "ar yr un sail ag y mae'n ymddangos yn Senedd y Deyrnas Unedig", ac y bydd yr ymrwymiadau a nodir yn y Memorandwm yn cael eu hymgorffori yn y Siarter.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymell y dylai'r BBC gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cynulliad ar ei allbynnau a'i weithrediadau sy'n berthnasol i Gymru, a darparu datganiad archwiliedig o gyfrifon.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymell y dylai'r BBC ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n berthnasol i Gymru.

24. Dylai'r Cynulliad gryfhau ei drefniadau ei hun ar gyfer dwyn y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau i gyfrif am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu i'w cynulleidfaoedd yng Nghymru ac am yr arian sy'n cael ei wario wrth wneud hynny. Yn y Cynulliad nesaf, dylai un pwyllgor ganolbwyntio ar 'ddarlledu a'r cyfryngau' yn unig, gan adlewyrchu ei bwysigrwydd i fywyd Cymru a'r economi.

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell y dylai'r pumed Cynulliad benderfynu sefydlu pwyllgor ar gyfathrebu. Byddai'r pwyllgor hwn yn sicrhau bod y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyhoeddus ynglŷn â chyflawni eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiadau i Gymru.

S4C

25. Mae’r gostyngiadau cyllid o 36 y cant mewn termau real a osodwyd ar S4C ers 2010 wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur.

26. Yn rhinwedd ei swydd fel yr unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg, mae'n hanfodol bod cyllid S4C yn ddigonol i ateb ei rwymedigaethau ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus tuag at ei gynulleidfaoedd. Mae'n anodd gweld sut y bydd S4C yn gallu ateb y rhwymedigaethau hyn os yw’n wynebu rhagor o ostyngiadau yn ei chyllideb ar ben yr arbedion effeithlonrwydd y mae eisoes wedi gorfod eu gwneud. Yn wir, rydym yn pryderu y gallai'r angen i ddod o hyd i arbedion ychwanegol yn y dyfodol roi pwysau annioddefol ar y sianel.

27. O gofio graddfa’r toriadau cyllid a gafwyd hyd yn hyn, rydym o’r farn ei bod yn hanfodol bod cyllid S4C yn y dyfodol yn cael ei gynnal ar y lefelau presennol o leiaf. Ymhellach, rydym yn credu y dylai anghenion ariannol S4C yn y dyfodol gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod eu hunain, ac nid fel rhan o ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol y BBC ar gyfer Cymru. Byddai trefniant o'r fath yn adlewyrchu’r gwerthfawrogiad i'r sianel a fynegwyd gan ei chynulleidfaoedd, yn ogystal â’i heffaith gadarnhaol ar y Gymraeg a'r economi.

28. Mae angen i annibyniaeth weithredol a golygyddol barhaus S4C ar Weithrediaeth y BBC gael ei gwarantu. I gyflawni hyn, dylid diffinio a diogelu trefniadau ariannu S4C yn y dyfodol. Gallai sianelu cyllid S4C o ffi'r drwydded drwy Lywodraeth Cymru fod yn ddull effeithiol o gyflawni hyn. Yn y tymor hirach, rydym yn credu ei bod yn werth ystyried fformiwla ariannu ar gyfer y Sianel.

29. O ran cylch gorchwyl statudol S4C, rydym yn credu bod hyn wedi bod yn ffactor sy’n cyfyngu gallu’r Sianel i arloesi ac ymateb i anghenion mwyfwy amrywiol ei chynulleidfaoedd. Gan hynny, nid yw’r cylch gorchwyl yn addas mwyach ar gyfer gofynion darlledu Cymraeg yn y tymor hir. Rydym yn cefnogi'r galwadau am ailddiffinio cylch gorchwyl S4C fel darparwr cynnwys.

30. O ran trefniadau atebolrwydd, rydym yn nodi bod S4C yn atebol ar hyn o bryd i’r Senedd (o dan y statud) ac i Ymddiriedolaeth y BBC (drwy Gytundeb Gweithredu). Rydym yn credu ei bod yn werth ffurfioli'r llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad, ac y gallai hyn ei wneud drwy gyflwyno trefniadau i S4C gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i’r Cynulliad.

Rydym o'r farn y gellid datblygu Cytundeb neu Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth at y diben hwn.

31. Rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C yn 2017. Rydym hefyd yn croesawu ei benderfyniad i ddarparu £400,000 yn ychwanegol o arian i'r sianel yn 2016-17, a'r sicrwydd y mae hynny'n ei roi i S4C at y dyfodol. Ymhellach, rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Ymddiriedolaeth y BBC y bydd yn cynnal cyllid S4C o ffi'r drwydded ar y lefelau presennol tan 2018.

Argymhelliad 10: Fel rhan o adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C, rydym yn argymell y dylai anghenion ariannol ariannu S4C yn y dyfodol gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod eu hunain, ar wahân i ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol y BBC ar gyfer Cymru.

Argymhelliad 11: Rydym yn argymell y dylai llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad gael eu ffurfioli drwy gytundeb a fydd yn rhwymo S4C i gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad, ac i ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad.